CYNGOR GWYNEDD

ADRAN 44 DEDDF SAFONAU A THREFNIADAETH YSGOLION 2013

RHYBUDD O GYNNIG I WNEUD NEWIDIADAU A REOLEIDDIR I YSGOL HAFOD LON AC UNED TŶ ARAN

Cyngor Gwynedd, Stryd y Jêl, Caernarfon, Gwynedd. LL55 1SH

Hysbysir drwy hyn yn unol ag adran 44 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion 2013 a'r Cod Trefniadaeth Ysgolion fod Cyngor Gwynedd ar ôl ymgynghori â'r cyfryw bersonau ag sy'n ofynnol, yn cynnig newid Ysgol Hafod Lon, Y Ffor, Pwllheli LL53 6UP, ac Uned Tŷ Aran, Ffordd Pen y Cefn, Dolgellau, LL40 2YW fel eu bod yn cael eu hail-leoli i safle newydd ym Mharc Busnes Eryri, Penrhyndeudraeth, LL48 6LD; yn cynyddu'r ddarpariaeth i hyd at 100 o ddisgyblion; a bod darpariaeth breswyl ac egwyl fer 6 gwely ar gael. Cynhelir yr ysgol a'r uned gan Gyngor Gwynedd.

Cynhaliodd Cyngor Gwynedd gyfnod ymgynghori cyn penderfynu cyhoeddi'r cynnig hwn. Mae adroddiad ar yr ymgynghoriad sy'n cynnwys crynodeb o'r materion a godwyd gan ymgyngoreion, ymatebion y cynigwyr a barn Estyn ar gael ar wefan Cyngor Gwynedd.
Cynigir gweithredu'r cynnig ar **1 Medi 2016**.

Nifer y disgyblion yn yr ysgol ar hyn o bryd yw 54 ac mae 3 disgybl yn yr uned. Capasiti disgyblion yr ysgol yw 28. Ar ôl gweithredu'r cynnig bydd darpariaeth i 100 o ddisgyblion. Bydd hefyd ddarpariaeth o 6 gwely preswyl ac egwyl fer.

Gall unrhyw un wrthwynebu'r cynigion cyn pen cyfnod o 28 diwrnod o ddyddiad cyhoeddi'r cynigion hyn, hynny yw erbyn 19 Rhagfyr 2014.

Dylid anfon gwrthwynebiadau at Bennaeth Addysg (dros dro), Cyngor Gwynedd, Stryd y Jêl, Caernarfon, Gwynedd LL55 1SH

Llofnodwyd:

Owen Owens, Pennaeth Addysg (dros dro), Cyngor Gwynedd, Stryd y Jêl, Caernarfon, Gwynedd LL55 1SH

Dyddiad Cyhoeddi: **21 Tachwedd 2014**

NODYN ESBONIADOL
(Nid yw'r isod yn rhan o'r rhybudd ond mae'n cynnig esboniad o'i bwrpas)

Yn dilyn ymgynghori, cymeradwyodd Cabinet Cyngor Gwynedd i ail-leoli Ysgol Hafod Lon ac Uned Tŷ Aran i safle newydd ym Mhenrhyndeudraeth ar 1 Medi 2016, cynyddu capasiti yr ysgol ac ychwanegu elfen breswyl i'r ddarpariaeth. Er mwyn i hyn ddigwydd cynigir bod Ysgol Hafod Lon, Y Ffor ac Uned Tŷ Aran, Dolgellau yn cael eu hail-leoli i'r ysgol newydd ym Mhenrhyndeudraeth ar 1 Medi 2016